Y Pwyllgor Grantiau
21 Ionawr 2026

Yn bresennol (yn bersonol):
Y Cynghorydd S Hancock MBE, y Cynghorydd M James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd S Skyrme -Blackhall.

Yn bresennol (ar-lein):
Dr M Havard

Hefyd yn bresennol:
Bethan Jones (Swyddog Cynaliadwyedd), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), a Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio).

(Ystafell y Preseli, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ac ar-lein: 10:00am – 11:35am)

1. Ethol Cadeirydd

Agorodd Dr M Havard y cyfarfod a dweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law am y swydd Cadeirydd, sef y Cynghorydd M James.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn oedd i ddod.

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law am y swydd Dirprwy Gadeirydd, sef y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** ethol y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn oedd i ddod.

3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A Tinley.

4. Datgan Buddiannau

Datganodd Dr M Havard bod ganddi fuddiant yn y ceisiadau SDF/12026/3 ac SDF/12026/15. Datganodd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall bod ganddi fuddiant rhagfarnus yn y cais SDF/12026/6, a chadarnhaodd y byddai'n gadael yr ystafell gyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais hwn.

Nodwyd.

5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024.

6. Log Gweithredu

Nododd yr Aelodau y log gweithredu.

Nodwyd.

7. Adroddiad y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC)

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau presennol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac am sefyllfa ariannol y gronfa. Tynnwyd sylw at y ffaith, oherwydd newid mewn amgylchiadau, nad oedd y prosiect Caerhys yn gallu bwrw ymlaen, a bod y cyllid grant i'w ddychwelyd i'r Awdurdod.

O ran y prosiectau oedd wedi'u cwblhau ers Awst 2025, gofynnodd Aelod am i'r adroddiadau diwedd prosiect ar y prosiectau hynny gael eu dosbarthu i'r Aelodau, a nodwyd hyn.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod y tîm wedi bod yn edrych ar ddatblygu adroddiad ar effaith prosiectau'r gronfa fyddai'n dangos effaith gyffredinol prosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y gorffennol ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd.

Nodwyd.

8. Eithrio'r cyhoedd

Nodwyd, wrth drafod y ceisiadau, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, a eiliwyd gan Dr S Hancock, **penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

9. Ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC)

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad oedd yn manylu ar 15 cais cymwys i'w hystyried o dan gynllun y Gronfa Datblygu

Cynaliadwy. Dywedwyd bod swm y cyllid y gofynnwyd amdano lawer yn uwch na'r cyllid oedd ar gael, felly bod pob prosiect wedi'i sgorio yn ôl y wybodaeth a roddwyd yn eu cais drwy ddefnyddio'r meini prawf sgorio a nodwyd yn yr adroddiad. Eglurodd y Swyddog bod ceisiadau a sgoriodd 34 neu fwy wedi'u hargymell i'w cymeradwyo, a cheisiwyd cytundeb yr Aelodau ag argymhelliad y Swyddogion ar gyfer ariannu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** dyfarnu cyllid i'r ceisiadau canlynol, yn amodol ar amodau arferol y grant:

Cyfeirnod	**Sefydliad**	**Cyllid a Ddyfarnwyd**
SDF/012026/2	Yr Hen Ysgol, Dinas	£11,000
SDF/12026/3	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru	£18,735
SDF/12026/7	Neuadd Bentref Angle	£7,001
SDF/12026/9	Cyngor Dinas Tyddewi	£17,960
SDF/12026/10	Pontio Bro Gwaun	£5,730
	Cyfanswm	£60,426

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Grantiau a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2026 heb eu diwygio.